*(Parhad o dudalen 3)*

heibio ers pan welodd Bernadette Soubirou y Forwyn Fendigaid yn Lourdes, ac yr oedd cyfran o boblogaeth gwlad oedd ei hun yn hyddysg mewn llenyddiaeth Feiblaidd, ac wedi profi gwewyr diwygiad crefyddol mor ddiweddar ag 1859, yn debyg o fod yn barod i groesawu'r posibilrwydd y gellid cael diwygiad gwyrthiol ryw dro ym mherfeddion cefn gwlad Cymru.

Ac os gellir credu'r adroddiad mewn rhifyn o'r *Welshman* yn ystod haf 1868, 'roedd y Mormoniaid wedi bod yn brysur yn yr ardal yn honni'r gallu i iacháu cleifion a chyflawni gwyrthiau, ac wedi denu nifer o Annibynwyr blaenllaw at eu hachos. Un o ddiaconiaid capel yr Annibynwyr ym Mhencader oedd Evan Jacob. A oedd ef, a rhai o'i gyd-ddiaconiaid, tybed, ymhlith yr Annibynwyr oedd wedi cael eu swyno gan neges y Mormoniaid? Yn ôl arbenigwr ar hanes y Mormoniaid yng Nghymru nid oedd yn beth dieithr i ganfod eglwyswyr yn ymddiddori mewn Mormoniaeth. Tybed a oedd ficer Llanfihangel-ar-Arth yn eu plith?

Gan eu bod hwythau'n Annibynwyr mi fyddai'n rhesymol i ddisgwyl mai troi at eu gweinidog a wnâi teulu Llethr-neuadd wrth wynebu argyfwng ond y cwbwl wyddom ni yw mai am wasanaeth ficer y plwyf y galwyd yn Nhachwedd 1867. Ar gais y ferch, Sarah, ddigwyddodd hynny yn ôl llythyr i *Seren Cymru* gan feddyg y teulu yn nechrau mis Mawrth 1869.

Daeth Sarah Jacob i adnabod y ficer trwy fod yn ddisgybl yn yr Ysgol Genedlaethol — ysgol yr eglwys — yn Llanfihangel-ar-Arth. Ni wyddys i ba raddau oedd Evan Jacob yn fodlon i Evan Jones alw ond y mae'n bosibl bod y tad wedi gorfod ildio — nid yw'n glir a oedd y dyn mewn gwirionedd yn feistr corn ar ei gartref ei hun. Mae'r adroddiadau yn *Seren Cymru* yn dangos bod gan Sarah Jacob, er mor ieuanc, ddiddordeb dwfn mewn crefydd ac yr oedd galw'r ficer hwyrach yn adlewyrchu teimlad oedd ganddi mai ef oedd yn ei deall orau. Ond mae'n bosibl i awgrymu esboniad arall paham na alwyd ar weinidog.

Yn ôl *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru* (Thomas a Jones) fe ddaeth gweinidogaeth y Parch John Owen ym Mhencader i ben tua 1868 ar ôl tair blwydd ar hugain. Ymfudodd i'r Unol Daleithiau ac yno y bu farw. Anghytundeb o ryw fath roes derfyn ar ei wasanaeth ond ni wyddys beth oedd yr achos. Yn ôl un hanes a welwyd bu dadleuon diwinyddol rhwng Calfiniaeth ac Arminiaeth yn corddi'r dyfroedd ym Mhencader ryw dair blynedd wedi ymadawiad John Owen, ond tybed a oedd honiadau teulu Jacob, a'r gefnogaeth a gawsant gan eu cydaelodau a'r diaconiaid, wrth wraidd y peth hefyd?

Ni ddylid anwybyddu'r posibilrwydd hefyd mai gan Hannah Jacob mewn gwirionedd oedd y llais cryfaf yn y cartref? Mae'n fater o bwys oblegid er cysylltiad agos Evan Jacob (a hithau yn ôl yr hanes) ag achos yr Annibynwyr, bedyddiwyd mab, David, yn eglwys y plwyf yn Awst 1868. Ef oedd y cyntaf, ond nid o bell ffordd yr olaf, o blant Llethr-neuadd i gael bedydd yn yr eglwys. Mae'r penderfyniad ynglŷn â'r bedydd yn awgrymu bod y ficer wedi cael ei draed yn ddiogel o dan fwrdd yr Annibynwyr yn Llethr-neuadd o fewn ychydig o fisoedd i'w ymweliad cyntaf. O safbwynt pwy oedd â'r awdurdod cryfaf yn y cartref rhaid ystyried hefyd adroddiad bod Evan Jacob yn dal i gael ei gyfri'n un o bileri'r achos ym Mhencader dros flwyddyn ar ôl i'r gweinidog ymadael a bedydd ei fab yn yr eglwys, a dros ddwy flynedd ar ôl dechreuad ympryd ei ferch.

Amau gallu'r ferch i fyw heb ymborth oedd ymateb y ficer i ddechrau a rhybuddiodd y rhieni rhag honni pethau disynnwyr oblegid wrth wneud hynny gallent gael eu cosbi. Ond newidiodd ei feddwl. Sut a pha bryd ddigwyddodd y dröedigaeth ryfeddol honno wyddom ni ddim oblegid ni holwyd ef ynghylch y peth. 'Roedd ganddo, y mae'n glir, barch mawr tuag at y rhieni a buasai o dan bwysau cynyddol oherwydd cysondeb eu honiadau a'r gred yn eu geirwiredd ymhlith y cymdogion, i dderbyn beth a ddywedent wrtho.

Ac yntau yn galw'n gyson yn Llethr-neuadd oni fyddai'r ficer wedi manteisio ar y cyfle i drafod y sefyllfa gyda Sarah Jacob ei hun ac wedi'i chlywed yn dweud, allan o glyw ei rhieni, nad oedd yn bwyta. Er ei hoed gellir meddwl mai Sarah oedd y cymeriad cryfaf yn ffermdy Llethr-neuadd. Gellir synhwyro o'r holl ohebiaeth a'r adroddiadau yn y wasg, yn enwedig y wasg Gymreig, ei bod hi yn medru troi ei rhieni o gwmpas ei bys bach ac yn argyhoeddi lluoedd o ymwelwyr bod ganddi ddoniau anghyffredin. Wfftiwyd at y sefyllfa gan y wasg Seisnig, ac fe gyfeiriwyd at Sarah braidd yn ddirmygus. Iddyn nhw *'The Welsh Fasting Girl'* oedd hi ond 'roedd y wasg Gymreig yn nes o lawer ar y marc, 'Yr Eneth Hynod' oedd y pennawd yn y fan honno.

Serch hynny, er yr holl ddylanwadau, prin bod y cyfan yn ddigon i berswadio'r ficer i gefnu ar ei farn agoriadol heb ymgysylltu ag eraill, a rhaid edrych i gyfeiriad arall i ystyried y rhan chwaraewyd gan feddyg y teulu yn natblygiad yr hanes.

Ei enw oedd Dr David Harries Davies o Landysul, pentref tua pum milltir o Llethr-neuadd. Fe alwyd ef i weld Sarah pan darawyd hi'n wael yn Chwefror 1867, a bu'n ei thrin am chwech wythnos. Yn ystod y cyfnod hwnnw cafodd y ferch rhyw fath o ffitiau, bu'n anymwybodol am fis ac ar ei derfyn edrychai fel sgerbwd. Rhoddodd y meddyg gyfarwyddiadau ynglŷn â'i bwydo a chyfaddefodd wrth y tad nad oedd ganddo amcan beth oedd yn bod arni ac ni wyddai sut i'w gwella. Aeth mor bell a dweud wrth Evan Jacob mai gan y 'Doctor Mawr' yn unig oedd y feddyginiaeth ac fe adawodd hynny argraff ddofn ar feddwl y tad.

Yn Ebrill 1867, yn ôl datganiad gwirfoddol Evan Jacob gerbron y trengholiad, galwyd meddyg arall, Dr Hopkins, i weld Sarah yn lle Dr Davies. Honnodd Jacob bod Hopkins wedi dweud wrtho nad oedd gwella i fod gan ei bod yn dioddef o lid yr ymennydd. (Pan dynnwyd ei sylw at y datganiad 'sgrifennodd y meddyg i'r wasg i wadu iddo ddweud y fath beth.)

Galwodd Dr Davies drachefn a bu'n ei thrin am bythefnos. Yn ystod y cyfnod hwnnw dechreuodd Sarah fwyta ychydig. Wrth ei gweld yn gwella rhoddodd y gorau i'r ymweliadau gan deimlo, meddai, nad oedd gan feddygaeth ddim arall i'w gynnig iddi. Ni ofynwyd iddo'n ddiweddarach beth yn union oedd o'n feddwl wrth ddweud peth felly.

Rhwng diwedd mis Mai 1867 a dechrau Mwrth 1869, os medrwn gredu'r meddyg, ni bu unwaith yn Llethr-neuadd, ond nid oedd heb wybodaeth oblegid câi adroddiadau achlysurol gan Evan Jacob yn dweud wrtho na chymerai ei ferch ond y nesaf peth i ddim i'w fwyta. Yn y cyswllt hwn onid yw'n debygol fod y tad wedi dweud wrtho hefyd, o fis Hydref 1867 ymlaen, fod Sarah wedi rhoi'r gorau i fwyta yn gyfan gwbl?

Un arall a fyddai wedi ymgysylltu ag ef yn ddiau oedd y ficer, oblegid mae'n anodd credu y byddai hwnnw heb wneud. Onid oedd y meddyg a'r ficer yn debyg o fod yn adnabod ei gilydd yn dda gyda'r ddau yn byw mor agos? Bu'r ficer yn gurad yn Llandysul am dros ddwy flynedd cyn cael ei ddyrchafu i Llanfihangel yn 1860 ond ni wyddys a oedd Dr Davies yno yr adeg honno.

Nid oedd pob meddyg, y mae'n debyg, yn derbyn yn hollol ddigwestiwn y farn feddygol uniongred nad oedd modd cadw corff ac enaid ynghyd am amser hir heb ymborth ac y mae'n debyg bod Dr Davies yn un ohonynt. Yn y llythyr a anfonodd y meddyg at *Seren Cymru*, yn nechrau Mawrth 1869, fe soniodd am achosion y gwyddai ef yn dda amdanynt yn medru byw ar friwsion ond beth sy'n drawiadol ar ddiwedd y llythyr yw'r geiriau, *'nad oedd dim yn amhosibl i Greawdwr a Chynhaliwr dynolryw'*! Onid arwydd bod y meddyg yn meddwl am bosibiliadau eraill yw'r geiriau hynny?

'Roedd y doctor a'r ficer yn siŵr o fod yn trafod y sefyllfa gyda'i gilydd, a'r argyhoeddiad yn cryfhau bod rhywbeth hollol anghyffredin, hyd yn oed gwyrthiol, yn digwydd yn Llethr-neuadd. Tros enw Evan Jones, hwyrach, anfonwyd y llythyr tyngedfennol at *The Welshman* yng nghanol y mis bach 1869, ond 'roedd y Dr D. H. Davies cystal â bod yn gyd-awdur, fel y mae cynnwys ei lythyr ei hun at y *Seren* bythefnos yn ddiweddarach yn awgrymu.

Ar 11 Mawrth ymatebodd Dr Pearson Hughes o Lanymddyfri i'r her yn llythyr y ficer trwy alw yn y ffermdy i archwilio'r ferch. Clywodd gan ei mam, yr unig riant oedd yn bresennol, fod ei merch yn dewach ac yn drymach nag yr oedd ar ddechrau ei hympryd ond 'roedd ei chorff yn farw i lawr ei hochr chwith ac nid oedd yn medru codi o'r gwely. Barnodd Dr Hughes (a welodd fara menyn a photel yn hanner llawn o ryw hylif ar y gwely pan gyrhaeddodd) wrth ei harchwilio nad oedd dim i'w rhwystro rhag symud ac yr oedd cyflwr iachus ei chorff yn awgrymu nad oedd Sarah yn gaeth i'r gwely o gwbl. Yn ôl yr arwyddion, meddai, nid oedd ronyn o wirionedd yn honiadau'r fam.

Mae'n glir bod agwedd y meddyg, y ffordd y bu'n trin Sarah wrth ei harchwilio a'i farn di-flewyn-ar-dafod, wedi cynhyrfu Hannah Jacob yn ddirfawr ac a ddylanwadodd ar ei gŵr i ddwyn achos yn ei erbyn yn llys yr ynadon er nad oedd y tad yn dyst i'r digwyddiad. Taflwyd yr achos allan gan y fainc ond fe gyfeirir ato yn nes ymlaen. Canlyniad arall, yn ôl y ficer, i'r ymweliad fu i Evan Jacob alw i'w weld i holi am y posibilrwydd o gael rhywrai i'r ffermdy i wylio ei ferch am gyfnod er mwyn profi nad oedd unrhyw gafflo'n digwydd yno. Ac yntau wedi cyhoeddi yn ei lythyr i'r wasg mai'r gwir oedd yn cael ei lefaru gan y teulu fe fyddai Evan Jones (a'r meddyg) yn llawn mor awyddus i orfodi Dr Hughes i lyncu ei eiriau.

Ar y 15 Mawrth 1869, pedward diwrnod ar ôl archwiliad Dr Hughes, eisteddodd pwyllgor o wŷr blaenllaw'r ardal yn ysgoldy Llanfihangel-ar-Arth i ystyried y ffordd orau i wylio a phrofi achos Sarah Jacob. Rhoddwyd y ficer yn y gadair. Un o'i gydaelodau oedd y Dr D. H. Davies ac y mae'n glir nad oedd y meddyg